



Cyngor Cymuned Llandwrog  
Community Council

Cofnodion Cyfarfod Fideo y Cyngor  
Council Video Meeting Minutes

26 Mai 2020 / 26 May 2020

# **Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council**

Cofnodion y cyfarfod fideo o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Fawrth, 26 Mai 2020. *Minutes of the Video Council Meeting held Tuesday evening, 26 May 2020.*

**Yn bresennol / Present - 9 aelod / 9 members**

**Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron**

Cyng. Gwyn Owen Jones; Cyng. Rhys V Thomas

**Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel**

Cyng. Alan Patterson;

**Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon**

Cyng. Alun Wyn Jones; Cyng. Hywel J Owen; Cyng. David C Davies; Cyng. Eddie Willcox

**Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle**

Cyng. Marnel Pritchard; Cyng. Clive Bayley

**Hefyd yn bresennol / Also in Attendance-**

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / *Council's Administrative & Finance Manager*

---

20-05b-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / Chairman's Welcome**

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor Cyngorydd. Alun Wyn Jones am 8 o'r gloch yr hwyr Croesawodd pawb i'r cyfarfod a dymunodd yn dda iddynt ac eu teuluoedd yn y cyfnod anodd hwn.

---

20-05b-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / Apologies for Absences**

Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Bryn Williams; Cyng. Dyfed Williams

---

20-05b-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - *To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Ni wnaeth yr un aelod na'r Rheolwr ddatgan buddiant

No declarations was made by any member or the Manager on any items on the agenda.

---

20-05b-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 11 Mai 2020 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 11 May 2020 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

---

20-05b-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

20-05b-06 **Technoleg / Technology**

Trafodwyd penderfyniad y Cyngor i ddarparu cyfarpar / adnoddau i aelodau er mwyn derbyn gwaith y Cyngor yn ddi-bapur.

Eglurodd y Cadeirydd fod angen symud ymlaen gyda'r mater. Angen l'r aelodau ystyried pa fath o adnoddau, prisiau a darparwr a faint o aelodau sydd angen y cyfarpar.

#### Sylwadau Aelodau

AP - wrth edrych ymlaen ac os bydd angen mynd nôl i gyfarfod wyneb yn wyneb ydi pawb yn cael tabled i dderbyn gwaith y Cyngor yn ddi-bapur?

AWJ - ie dyna yw'r bwriad ac i arbed costau deunydd swyddfa. Cael padiau i bawb ydi'r bwriad. Aelodau methu dod a PC's mawr i gyfarfodydd. Yn ddelfrydol bydd pob aelod gyda chyfarpar technolegol ym mhob cyfarfod. Safoni model o ba gyfarpar sydd yn addas a derbyn prisiau ydi'r cam cyntaf.

DCD - angen edrych ar sail tabled nid Ipad. Ipad yn gyfarpar drud. Angen tabled gyffredin. Man cyntaf adnabod y costau.

CB - Lenovo ydi'r cyfarpar sydd yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Gwynedd. Ar gael am oddeutu £150.

HJO – dim signal mewn rhai sefydliadau, ydi hyn am achosi problemau.

AWJ - angen i bob aelod safio dogfennau gan y Rheolwr i gof y tabled, yn hytrach na linc gwefan.

CB – angen cyrraedd ar ffurf PDF.

DCD - yn gofyn beth yw'r cyfarpar sydd gan y Cyngor Sir?

RVT - beth yw oes y cyfarpar? Oes angen cyfarpar newydd pob 5 mlynedd?

AP - awgrymu cysylltu gydag arbenigwr cyfrifiaduron lawr yn Blythe Farm?

CB - holi Currys a chael Cyngor rhad ac am ddim?

EW - "reconditioned" gan Apple am hanner pris? Tua £300 yw'r gost yr un

Rheolwr - yn awgrymu cysylltu gydag Adran Dechnegol Cyngor Gwynedd. O bosib gellir cael disgownt trwy brynu offer trwy Gyngor Gwynedd.

***Penderfynwyd gofyn i Adran Technoleg Cyngor Gwynedd am arweiniad ar y mater ac i'r Cyngor hwn drafod y mater ymhellach wedi derbyn yr ymateb.***

***Resolved – to ask Gwynedd Council's Technology Department for guidance on the matter and for this Council to discuss the matter further after receiving the response.***

#### 20-05b-07 **Llwybrau Cyhoeddus / Public Footpaths**

***Adroddwyd gan y Cadeirydd fod Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd wedi ymateb fel a ganlyn***

*Yr ydym wedi trafod y mater rhyngom ac ar ôl pwyso a mesur, rydym o'r farn y gall Cynghorau Cymuned fynd ati i drefnu'r gwaith cynnal. Rydym yn credu bod hi'n bwysig bod y gwaith yma yn cael ei wneud gan fod tyfiant yn culhau llwybrau ac felly'n lleihau'r 2m pellhau cymdeithasol. Fodd bynnag, wrth i chwi drefnu'r gwaith mae'n bwysig eich bod yn ystyried y canlynol:-*

- *Y Cyngor Cymuned sy'n cyflogi'r contractwr ac felly'n gyfrifol am yswiriant a sicrhau bod y contractwr yn dilyn canllawiau iechyd a diogelwch ar gyfer Covid 19.*
- *Dylid cadw 2m o bobl eraill a dilyn canllawiau glanhau dwylo a gwisgo PPE.*

- Awgrymwn y dylai'r contractwr fod gydag o leiaf un cydweithiwr yn cadw llygad allan am gerddwyr.

Adroddwyd fod y Rheolwr wedi cysylltu gyda'r ymgwymerwr ac wedi rhoi'r cyfarwyddyd iddo gynnal y llwybrau yn unol â'r cytundeb a'r amserlen wrth gadw at ganllawiau Cyngor Gwynedd o safbwynt materion Covid 19.

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth gan ddisgwyl i'r ymgwymerwr gychwyn ar y gwaith yn unol â'r cytundeb a'r amserlen.***

***Resolved - to accept the information with the expectation that the contractor will commence the work in accordance with the agreement and timetable.***

#### 20-05b-08 **Caban Ffon Dinas Dinlle / Telephone Booth**

Adroddwyd fod y Rheolwr wedi derbyn cytundeb gyda BT ac wedi ei arwyddo

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth  
Resolved – to accept the information.***

#### 20-05b-09 **Gwefan Newydd - New Website**

Nodwyd fod y Delwedd yn parhau ar y gwaith o drosglwyddo gwybodaeth o'r hen wefan i'r wefan newydd. Disgwylir y bydd y gwaith wedi gorffen yn y dyddiau nesaf.

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.  
Resolved – to accept the information.***

---

#### 20-05a-10 **6 Cais am Gyfraniad Ariannol – Tarian Cymru – Offer PPE**

Trafodwyd yr ohebiaeth gan Tarian. Cymru am gyfraniad ariannol i brynu offer diogelwch i staff yn y sector gofal (PPE)

Sylwadau Aelodau -

EW - Gofal Bro sydd yn gwneud gwaith yn y gymuned hon heb eu cynnwys yn y rhestr sydd wedi cael offer gan Tarian. Cartrefi preifat eraill heb eu cynnwys.

HJO - o'r farn dylai'r cartrefi preifat ariannu cyfarpar diogelwch o adnoddau eu hunain o ystyried ffioedd preswyl y cartrefi yma. Methu gweld pa hawl sydd gan y Cyngor i wneud cyfraniad.

AP – gwell rhoi arian yn hunain yn syth i gartrefi preswyl

***Penderfynwyd cadw'r llythyr ar y bwrdd ac yn ei anwybyddu.  
Resolved - to keep the letter on the table and ignore it.***

***Cynnig HJO  
Eilio DCD***

---

## ***Materion Cynllunio / Planning Matters***

#### 20-05b2-11 **7 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Chwefror 2020 / February 2020**

Manylion llawn y ceisiadau cynllunio

<https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2>

Full details of the Planning Applications

<https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=1>

20-05b2-12 Cais Rhif / Application Number **C20/0306/17/DT**  
Cyfeiriad / Address - **Pen Y Bont Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7EW**  
Bwriad / Proposal - **Adeiladu estyniad llawr cyntaf uwchben estyniad llawr daear  
presennol a balconi llawr cyntaf ar y drychiad blaen.  
Construction of first floor extension above existing flat roof  
extension and first floor balcony on front elevation.**

***Penderfyniad y Cyngor – dim sylwadau.  
Council decision – no comments.***

20-05b-13 Cais Rhif / Application Number - **C20/0271/17/HY**  
Cyfeiriad / Address - **Ashgrove, Lon Grugan Ddu, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd,  
LL54 7ST**  
Bwriad / Proposal - **Cais ar gyfer arwydd uwchben siop trwsio cyfrifiaduron  
bwriedig / Application for an advertisement above a proposed  
computer repair shop.**

Sylwadau aelodau –  
AP – angen i'r arwydd fod yn y Gymraeg hefyd

***Penderfyniad y Cyngor – cefnogi y cais ond yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio i roi amod  
fod yr arwydd yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg.  
Council decision – support the application, but request the Planning Authority to impose  
a condition that the sign appear in Welsh and English.***

20-05b-14 Cais Rhif / Application Number - **C20/0312/17/LL**  
Cyfeiriad / Address - **Ashgrove, Lon Grugan Ddu, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd,  
LL54 7ST**  
Bwriad / Proposal - **Cais ar gyfer arwydd uwchben siop trwsio cyfrifiaduron  
bwriedig / Application for an advertisement above a proposed  
computer repair shop**

***Penderfyniad y Cyngor – cefnogi'r cais.  
Council decision – support the application.***

20-05b2-15 Cais Rhif / Application Number - **C20/0324/17/LL**  
Cyfeiriad / Address - **30 Cae Sarn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7TW**  
Bwriad / Proposal - **Estyniad blaen, ochr a cefn. Front side and rear extension**

***Penderfyniad y Cyngor – dim sylwadau.  
Council decision – no comments.***

---

## 20-05a-16 **8 Adroddiad y Rheolwr – Managers Report**

Dim i'w ychwanegu i'r hynny sydd wedi eisoes wedi ei adrodd arno.

20-05a-17 **Trwydded Pori Tir Caety**  
Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd sefyllfa'r drwydded.

Adroddwyd fod Meirion Owen yn arwyddo cytundeb yn flynyddol a thalu £1.00 y flwyddyn am hawliau tir pori.

Angen edrych eto ar fanylder y drwydded a'i ddiweddarau fel sy'n briodol.

Sylwadau Aelodau

HJO - pob trwydded pori i fod am 364 diwrnod nid 365

**Penderfynwyd cyfeirio'r mater at Bwyllgor Mynwentydd ac Eiddo'r Cyngor l'w ystyried.**

**Resolved to refer the matter to the Council's Cemetery and Property Committee for consideration.**

## 20-05b-18 **9 Covid 19 – Effaith ar ein Cymuned / Covid 19 - It's Effect on our Community**

Derbyniwyd adroddiadau canlynol

**Carmel** – Rheolwr – adrodd fod Pwyllgor Pentref Carmel yn bwriadu cyflwyno cais yn y dyddiau nesaf.

**Groeslon** - DCD - yn bwriadu gwneud cais i Mantell Gwynedd am grant. 125 o becynnau wedi ei ddsbarthu i bobol hyn y pentref yr wythnos diwethaf. Wedi cael ei werthfawrogi yn fawr

**Llandwrog** – MP yn adrodd fod y pentref wedi derbyn grant gan Mantell Gwynedd o £1,000 Cyng. Marnel Pritchard – Llandwrog wedi derbyn grant o £1,000 gan Mantell Gwynedd. Pawb yn gwerthfawrogi

**Fron** - EW - fawr ddim yn digwydd. Wedi e-bost i Gadeirydd y Ganolfan ond heb dderbyn ymateb. Gwnaed sylwad . Cwyn nad yw gwefan Cyngor Gwynedd yn cynnwys Canolan y Fron ar y dudalen gwefan sydd yn cynnig cymorth.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb sydd yn cefnogi'r gymuned yn yr amser anodd hwn

## 20-05b-19 **10 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

<b>Manylion / Details</b>	<b>Swm heb y TAW / Excluding VAT</b>	<b>TAW - VAT</b>	<b>Rhif Siec/ Cheque Number</b>
Cyflog y Rheolwr – Mai – <a href="#">Managers Salary May</a>	£549.97		Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>
HMRC-Treth Incwm Mai – <a href="#">Income Tax May</a>	£151.00		Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>
NEST– Cyfraniad y Cyngor Mai / <a href="#">Employers C'btions May</a>	£75.52		Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>
NEST– Cyfraniad y Rheolwr Mai / <a href="#">Manager C'butions May</a>	£30.21		Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>
Lwfans y Rheolwr – Mai – <a href="#">Managers Allowance May</a>	£24.00		Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Rheolwr i ryddhau'r oll daliadau.  
Resolved to accept the information and to authorise the Manager to release all the payments***

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:50 yr hwyr / The meeting ended 8:50 pm**

<b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate</b>	
<b>Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor</b>  <b>Signed by the Chairman</b>	
<b>Dyddiad - Date</b>	